

18 Mawrth 2020

Annwyl riant/gwarcheidwaid,

Bydd yr ysgol a Chlwb Gofal Mês y Dderwen yn cau ar ddydd Gwener (20.3.20) mewn ymateb i'r achosion coronafeirws.



Rydym yn uniaethu â'r pryderon a'r gofidon sydd gennych ynghylch â'r sefyllfa diweddar ac yn sylweddoli bod y sefyllfa bresennol yn ofid i chithau ac i ninnau fel ysgol.

Sylweddolwn bod yr wythnosau nesaf yn mynd i fod yn rhai heriol i ni gyd tra bod yr ysgol ar gau.

Os ydych chi'n iach, fe allwch gefnogi addysg eich plentyn a chymryd rôl weithredol wrth gynorthwyo gydag addysg eich plentyn yn y cartref. Mae staff yr ysgol wedi meddwl am y syniadau isod fel man cychwyn, ond y peth pwysicaf allwch wneud yw cymryd diddordeb yn yr hyn mae eich plentyn yn ei wneud a gofalu am eu lles meddyliol.

Mae croeso i chi uwchlwytho lluniau i twitter gan ddefnyddio'r hashnod @ysgolydderwen i rannu eich profiadau gyda ni.

Daw haul ar fryn!

Cofion cynnes,

Staff Ysgol y Dderwen

Syniadau ar gyfer cefnogi eich plentyn

- Disgyblion CA2: Cwblhau'r gweithgareddau ar y daflen gwaith cartref sydd gyda eich plentyn yn barod.
- ysgrifennu llythyrau y gellir eu ebostio/postio at berthnasau a allai fod yn hunan-ynysu ar eu pennau eu hunain
- Gwrando ar gerddoriaeth ymlaciol ac addas
- darllen yn ddyddiol /gwrando ar stori
- chwarae gêm
- Gwylio rhaglenni e.e Cyw /S4C
- creu gwaith celf-darlunio/collage/casglu deunydd o'r tu allan
- ymarfer darllen cloc 12 awr/24 awr/amserlenni
- Gweithgareddau cyfri/dyddiad/faint o'r gloch/ Ymarfer tablau
- Lliwio a thynnu llun
- Tacluso
- Ymarfer llawysgrifen-copio paragraffau o lyfrau.
- Coginio (datblygu sgiliau mesur)
- Mynd tu allan- awyr iach a chadw'n heini- neidio/sgipio/cicio pêl
- Garddio
- Ffotograffiaeth
- Jig-sos

18 March 2020

Dear parent / guardian,

The school and Clwb Gofal Mês y Dderwen will close on Friday (20.3.20) in response to the coronavirus outbreak.



We sympathise with your concerns about the recent situation and realise that you, as we are, feel increasingly anxious by the current situation.

We realise that the next few weeks are going to be a challenge for us all while the school is closed, but in the meantime, we encourage you to work with your children to support and extend home learning experiences.

If you are healthy, you can support your child's education and take an active role in assisting with your child's education at home. The school staff have thought of some ideas below as a starting point, but the most important thing you can do is take an interest in what your child is doing and look after their mental wellbeing.

Feel free to upload photos to twitter using the hashtag @ysgolydderwen to share your experiences with us.

Daw haul ar fryn!

Warmest regards,

Ysgol y Dderwen Staff

Ideas to support your child's learning

- Key Stage 2 Pupils: Complete the activities on the home work sheet that your child has already been given.
- Write letters that you could post/email at family members that might be self-isolating on their own.
- Listen to appropriate and relaxing music
- Read daily /listen to stories
- Play games
- Watch S4C children's programmes e.g Cyw
- Create a piece of art-collage/collect materials from outside
- Practise reading the clock/time 12/24 hr clock
- Counting activities/dates/seasons/months of the year/Practise Times Tables
- Draw and colour a picture
- Tidy
- Handwriting exercise-copi paragraphs from your reading book
- Cooking (develop measuring skills)
- If you can go outdoors- fresh air a keep fit-jump/skip/kick a ball
- Gardening
- Photography
- Jigsaw puzzles